***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 12

# CYFYNGIADAU AR DRAFODIADAU A RECRIWTIO ETC. GAN GYNGHORAU SY'N UNO A CHYNGHORAU SY'N CAEL EU HAILSTRWYTHURO

*Dyfarnu a yw trothwyon ariannol wedi eu croesi*

7 (1) At ddiben dyfarnu a yw caffaeliad neu waredIad tir yn gaffaeliad neu'n warediad tir perthnasol, mae'r gydnabyddiaeth ar gyfer y caffaeliad neu'r gwarediad o dan sylw i'w thrin fel pe bai'n cynnwys y gydnabyddiaeth ar gyfer unrhyw gaffaeliad neu warediad tir arall—

(a) a wneir gan y cyngor sy'n uno neu'r cyngor sy'n cael ei ailstrwythuro naill ai—

(i) ar ôl y dyddiad perthnasol ond cyn y caffaeliad neu'r gwarediad o dan sylw, neu

(ii) ar yr un diwrnod â'r caffaeliad neu'r gwarediad hwnnw, a

(b) sy'n ymwneud â'r un mater â'r caffaeliad neu'r gwarediad hwnnw, neu fater o ddisgrifiad tebyg.

(2) At ddiben dyfarnu a yw contract neu gytundeb yn gontract neu'n gytundeb perthnasol, mae'r gydnabyddiaeth o dan y contract neu'r cytundeb o dan sylw i'w thrin fel pe bai'n cynnwys y gydnabyddiaeth o dan unrhyw gontract neu gytundeb arall—

(a) yr ymrwymir iddo gan y cyngor sy'n uno neu'r cyngor sy'n cael ei ailstrwythuro naill ai—

(i) ar ôl y dyddiad perthnasol ond cyn y contract neu'r cytundeb o dan sylw, neu

(ii) ar yr un diwrnod â'r contract neu'r cytundeb hwnnw, a

(b) sy'n ymwneud â'r un mater â'r contract neu'r cytundeb hwnnw, neu fater o ddisgrifiad tebyg.

(3) At ddiben dyfarnu a yw caffaeliad cyfalaf cyfranddaliadau neu gyfalaf benthyciad mewn corff corfforedig yn gaffaeliad cyfalaf perthnasol, mae'r gydnabyddiaeth mewn cysylltiad â'r caffaeliad cyfalaf o dan sylw i'w thrin fel pe bai'n cynnwys y gydnabyddiaeth mewn cysylltiad ag unrhyw gaffaeliad cyfalaf cyfranddaliadau neu gyfalaf benthyciad arall (ac eithrio caffaeliad cyfalaf benthyciad pan fo'r amodau a nodir ym mharagraffau (a) a (b) o baragraff 6(5) wedi eu bodloni)—

(a) a wneir gan y cyngor sy'n uno neu'r cyngor sy'n cael ei ailstrwythuro naill ai—

(i) ar ôl y dyddiad perthnasol ond cyn y caffaeliad cyfalaf o dan sylw, neu

(ii) ar yr un diwrnod â'r caffaeliad cyfalaf hwnnw, a

(b) a wneir yn yr un corff corfforedig â'r caffaeliad cyfalaf hwnnw.

(4) At ddiben dyfarnu a yw grant neu gymorth ariannol arall (ac eithrio benthyciad) yn grant neu'n gymorth ariannol arall perthnasol, mae swm y grant neu'r cymorth ariannol o dan sylw i'w drin fel pe bai'n cynnwys swm unrhyw grant neu gymorth ariannol arall (ac eithrio benthyciad)—

(a) a roddir gan y cyngor sy'n uno neu'r cyngor sy'n cael ei ailstrwythuro naill ai—

(i) ar ôl y dyddiad perthnasol ond cyn y grant neu'r cymorth ariannol o dan sylw, neu

(ii) ar yr un diwrnod â'r grant neu'r cymorth ariannol hwnnw, a

(b) a roddir i'r un person ag y rhoddir y grant neu'r cymorth ariannol hwnnw iddo.

(5) At ddiben dyfarnu a yw benthyciad yn fenthyciad perthnasol, mae swm y benthyciad o dan sylw i'w drin fel pe bai'n cynnwys swm unrhyw fenthyciad arall—

(a) a roddir gan y cyngor sy'n uno neu'r cyngor sy'n cael ei ailstrwythuro naill ai—

(i) ar ôl y dyddiad perthnasol ond cyn y benthyciad o dan sylw, neu

(ii) ar yr un diwrnod â'r benthyciad hwnnw, a

(b) a roddir i'r un person ag y rhoddir y benthyciad hwnnw iddo.

(6) Yn y paragraff hwn—

ystyr "benthyciad" ("*loan*") (ac eithrio yn "benthyciad perthnasol") yw benthyciad—

(a) pan fo cyfnod y benthyciad yn ymestyn y tu hwnt i'r dyddiad trosglwyddo, neu

(b) pan ganiateir estyn y cyfnod hwnnw y tu hwnt i'r dyddiad trosglwyddo o dan delerau'r benthyciad;

mae "caffaeliad neu warediad tir" ("*land acquisition or disposal*") yn cynnwys y pethau a nodir ym mharagraff 6(2);

ystyr "contract neu gytundeb" ("*contract or agreement*") (ac eithrio yn "contract neu gytundeb perthnasol", gweler paragraff 6(3) ynglŷn â hynny) yw—

(a) unrhyw gontract, ac eithrio contract cyfalaf—

(i) pan fo cyfnod y contract yn ymestyn y tu hwnt i'r dyddiad trosglwyddo, neu

(ii) pan ganiateir estyn y cyfnod hwnnw y tu hwnt i'r dyddiad trosglwyddo o dan delerau'r contract;

(b) unrhyw gontract cyfalaf (o fewn ystyr paragraff 6(4));

(c) unrhyw gytundeb fframwaith o fewn ystyr rheoliad 33(2) o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (O.S. 2015/102)—

(i) pan fo cyfnod y cytundeb fframwaith yn ymestyn y tu hwnt i'r dyddiad trosglwyddo, neu

(ii) pan ganiateir estyn y cyfnod hwnnw y tu hwnt i'r dyddiad trosglwyddo o dan delerau'r cytundeb fframwaith;

ystyr "y dyddiad perthnasol" ("*the relevant date*") yw—

(a) y dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn cael y cais i uno, neu

(b) y dyddiad y rhoddir hysbysiad fel a ddisgrifir yn adran 129(6).